

Twristiaeth De Cymru Teithio Grŵp Pecyn Offer

Eich canllaw i ddenu mwy o ymweliadau grŵp





Cynnwys

- 03 Cyflwyniad
- 04 Pwy yw'r prif chwaraewyr?
- 06 A yw eich busnes yn addas ar gyfer grwpiau?
- 08 Beth i'w wneud i ddenu grwpiau
- 14 Gweithio gyda Thwristiaeth De Cymru a'ch Partneriaeth Cyrchfannau leol
- 16 Gweithio gyda'r Sector Grŵp wrth i ni ailgychwyn ar ôl Covid-19

Cyflwyniad

Mae teithio grŵp yn sector pwysig i Dde Cymru, hyd yn oed yn y cyfnod ôl-Covid 19. Mae'n anodd meddwl am fusnes yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol na allai elwa ar groesawu ymweliadau grŵp.

GWESTY A SBA PARKWAY



Tŷ TREDEGAR

Mae'r sector twristiaeth coetsys a theithio grŵp yn ffrwd incwm ddefnyddiol a dibynadwy i fusnesau twristiaeth. Mae grwpiau o ymwelwyr sy'n barod i wario yn gallu bod yn gwsmeriaid gwerthfawr i westai, atyniadau a chyrchfannau. Maen nhw o werth i atyniadau treftadaeth; arosfannau prydau bwyd; canolfannau manwerthu; darparwyr llety; darparwyr cludiant; tywyswyr; oriellau celf a chrefft a theatrau. Er eu bod yn darparu llai o elw na'r farchnad digwyddiadau busnes, maen nhw'n helpu i leddfu'r problemau sy'n gysylltiedig â'r elfen dymhorol; maen nhw'n darparu ffrydiau incwm sy'n fwy rhagweladwy na rhai grwpiau eraill o gwsmeriaid ac ar ôl iddyn nhw wneud eu harcheb, maen nhw bob amser yn troi i fyny beth bynnag yw'r tywydd. Hefyd, o safbwynt yr effaith amgylcheddol, mae teithio ar goetsys yn curo pob math arall o gludiant.



Pwy yw'r prif chwaraewyr?

Mae pob math o gynllunwyr teithiau ar gael, ond dyma'r prif rai:

ABATY TYNDYRN



Gweithredwyr Teithiau Coetsys

Mae llawer o'r rhain ledled y DU yn ogystal â thramor. Maen nhw fel arfer yn datblygu eu teithiau eu hunain ac yn defnyddio eu cerbydau eu hunain (er bod rhai yn defnyddio coetsys o gwmnïau eraill). Gallant drefnu teithiau (gyda rhai ohonyn nhw'n hollgynhwysol) sy'n cynnwys llety dros nos a theithiau i weld a phrofi amrywiaeth o atyniadau, teithiau o gwmpas golygfeydd ac i wneud gweithgareddau. Gallant hefyd drefnu rhaglen o wibdeithiau dydd, heb fod angen llety – er y bydd rhai gweithredwyr yn trefnu stopio mewn gwesty i gael prydau bwyd, cinio neu bryd gyda'r nos heb ddefnyddio'r llety dros nos.

Mae llai o weithredwyr teithiau bws erbyn hyn. Bydd llawer o gwmnïau bws ddim ond yn cynnig llogi bysiau. Dydyn nhw ddim yn awyddus i redeg eu rhaglenni teithio eu hunain. Gall pobl eraill eu llogi i redeg taith bwrpasol ac efallai y byddan nhw'n darparu gwasanaeth i ysgolion.

Dyma rai enghreifftiau o gwmnïau sy'n parhau i drefnu teithiau coetsys:

- **Barnes Coaches**
- **Deirdre Brown Travels**
- **Edwards Coaches**
- **Ellen Smith Travel**
- **Lockett's Coaches**
- **Motts Travel**
- **Richmond's Coaches**
- **Roadmark Travel**

Gweithredwyr Teithiau

Yn gyffredinol, dydyn nhw ddim yn cynnal eu fflyd coetsys eu hunain ond yn hytrach maen nhw'n gweithio gyda darparwyr eraill. Unwaith eto, maen nhw'n cynnig cymysgedd o deithiau, gwyliau a gwibdeithiau i atyniadau a chyrchfannau'r DU, yn ogystal ag i gyrchfannau tramor. Byddant yn gwerthu eu teithiau i aelodau'r cyhoedd ac i Weithredwyr Teithio Grŵp (GTOs) a chynllunwyr teithiau eraill, megis cwmnïau coetsys.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **Airedale Travel**
- **Crusader Holidays**
- **Daish's Holidays**
- **Saga Holidays**
- **Shearings Coach Holidays**
- **Success Tours**
- **Warner Holidays**

Trefnwyr Teithio Grŵp [GTOs]

Mae Trefnwyr Teithio Grŵp (GTOs) yn parhau i dyfu mewn nifer ac yn ehangu ledled y wlad. Mae GTO nodweddiadol yn unigolyn sydd â grŵp o ffrindiau, cydweithwyr, cymdeithion neu gyd-aelodau o grŵp penodol – ac maen nhw'n ceisio trefnu teithiau dydd a gwyliau (gan ddefnyddio llety) ar gyfer eu grŵp penodol. *Daw GTOs o nifer enfawr o wahanol sefydliadau ac mae'r rhain yn cynnwys:*

- **The University of the Third Age (U3A)**
- **Probus Clubs**
(Pobl Broffesiynol a Busnes sydd wedi Ymddeol)
- **Aelodau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
- **Clybiau Ymddeol**
- **Cerddwyr/Ramblers, grwpiau celf a diddordebau arbennig eraill**
- **Clybiau Cyflogaeth** – a ddarperir ar gyfer gweithwyr cwmni neu sefydliad

Mae'n ofynnol i GTOs, fel y gweithredwyr teithiau a choetsys, fod wedi'u hyswiro a bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb a chyfrifoldebau gofalu am grwpiau mawr o bobl, yn ogystal â thrin eu harian.

RHEILFFORDD TREFTADAETH BLAENAFON



Cwmnïau Teithiau Mewnol

Fel y mae'r enw'n awgrymu, cwmnïau yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar ddod â chwsmeriaid tramor i'r DU i gymryd rhan mewn pob math o brofiadau. Gallant fod wedi'u lleoli yn y DU neu dramor. Mae'r farchnad sy'n dod i mewn wedi tyfu'n aruthrol dros y deng mlynedd diwethaf (mae'n debygol o ailgychwyn ar ôl Covid-19) ac mae'n cynrychioli cyfran hanfodol i'r economi twristiaeth. Fodd bynnag, tasg enfawr, amrywiol ac anodd yw clustnodi set hawdd ei nodi a'i chydlynu o gwsmeriaid. Mae'n newid yn ôl yr amodau economaidd, y cyfraddau cyfnewid a'r llif. Mae ymwelwyr Asiaidd wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymwelwyr Tsieineaidd.

Mae'r cwmnïau hyn fel gweithredwyr teithiau eraill, yn trefnu teithiau cwbl gynhwysol (FITS), pecynnau wedi'u teilwra a chynhyrchion pwrpasol. Fel rhai gweithredwyr teithiau, gallant hefyd alw eu hunain yn DMC neu'n gwmni rheoli cyrchfannau.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **Abbey Ireland and UK**
- **AC Group**
- **Active England**
- **All in One Tours**
- **Angela Shanley Associates Ltd (ASA)**
- **Axis and Globe**
- **Back Roads Touring**
- **JAC Travel**
- **Miramar Travel**
- **Scancoming**

Cyfanwerthwyr Teithiau

Cwmnïau yw'r rhain sy'n darparu gwasanaeth i gwmnïau coetsys ac i GTOs - gan ddarparu syniadau ar gyfer teithiau wedi'u hymchwilio'n llawn. Fel arfer byddant yn cynnig amrywiaeth o gynhyrchion – gwyliau, gwyliau bach, teithiau ac ati – sy'n cynnwys cyrchfannau, gwestai ac atyniadau'r DU.

Gallant arbenigo yn y farchnad dros 50 oed, a gallant hefyd weithio gyda marchnad y teithwyr sy'n dod i mewn. *Mae enghreifftiau'n cynnwys:*

- **Albatross Travel**
- **Alfa Travel**
- **Ashley and Newey**
- **Dunwood Travel**
- **Great Days Travel Group**
- **Norman Allen Group Travel**

A yw eich busnes yn addas ar gyfer grwpiau?

Manteisiwch i'r eithaf ar botensial eich busnes drwy ddatblygu cynnig grŵp sy'n adlewyrchu eich pwyntiau gwerthu unigryw (USPs) ac yn apelio at y fasnach deithio.

AMGUEDDFA CYMRU, CAERDYDD



CASTELL CYFARTHFA



A allai eich cynnig grŵp gynnwys y canlynol?

Waeth a ydych yn berchen gwesty, atyniad, arosfan prydau bwyd neu gyfleuster cyrchfan mawr, mae tuedd i anghenion cwsmeriaid grŵp gynnwys y canlynol:

- Lle parcio i goetsys gerllaw a rhywle i ollwng a chodi.
- Cyfleusterau toiled hygyrch i hyd at 50 o bobl efallai.
- Os oes mwy nag un llawr, lifft.
- Rhywun o fewn eich busnes sy'n deall grwpiau a'u hanghenion – y ddolen gyswllt ar gyfer y cynllunydd teithiau dan sylw. Bydd llawer o ymholiadau grŵp ym mlaen y tŷ yn mynd ar goll yn sgil staff dibrofiad sydd heb eu briffio.
- Gwasanaeth 'cyfarfod a chyfarfod' wrth gyrraedd.

- Os darperir bwyd, paratoi bwydlen gyda dewisiadau y gellir eu rhagarchebu os oes angen.
- A yw teithwyr grŵp yn teimlo bod eich sefydliad yn cynnig yr un croeso iddyn nhw ag i eraill?
- Darparu lle i'r gyrrwr a'r tywysydd teithiau/hebryngwr orffwys a bwyta.
- Pris gostyngol i grŵp ar gyfer mynediad i atyniadau ac ar gyfer aros mewn gwestai.
- Os yw gwesty heb lifft, a oes ystafelloedd ar gael ar y llawr gwaelod?
- Ydych chi'n gofyn am flaendal wrth gymryd archeb grŵp, rhag ofn iddyn nhw ganslo?
- Deunydd cyhoeddusrwydd pwrpasol sy'n adlewyrchu Pwynt Gwerthu Unigryw eich grŵp ac sy'n helpu i werthu eich cynnyrch.
- Cynnig grŵp lleol neu ranbarthol sy'n cyfeirio at fusnesau ac atyniadau eraill yn yr ardal – pethau i'w gweld a'u gwneud ar gyfer grwpiau.

Beth i'w wneud i ddenu grwpiau

Os oes gan eich busnes gynnig trefnus, cydgysylltiedig a realistig ar gyfer grŵp, mae ffyrdd effeithiol a fydd yn eich helpu i sefyll allan ben a chynhyrchu archebion grŵp cynaliadwy.

Lansio a chyflwyno eich busnes i'r fasnach deithio. Mae'n hanfodol mynd ar radar yr amrywiol chwaraewyr sy'n prynu teithiau — GTOs, gweithredwyr coetsys a theithiau ac ati. Mae sawl ffordd o wneud hyn:

PROFIAD MWYNGLODDIO CYMRU — PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA



Defnyddio delweddau a negeseuon grŵp

Dylech sicrhau bod eich deunydd marchnata yn defnyddio delweddau nodweddiadol o gwsmeriaid grŵp a choetsys, a bod negeseuon cyhoeddusrwydd yn cael eu datblygu'n benodol ar gyfer grwpiau ar draws yr holl sianelau marchnata perthnasol. Er enghraifft, gwefan (gydag adran ar gyfer grŵp ac opsiwn archebu); taflenni wedi eu hargraffu; e-gylchlythyrau; llythyrau; negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol; deunydd hyrwyddo drwy'r post; byrddau arddangos dros dro ac yn y blaen.



Datblygu cronfeydd data pwrpasol

O'r cam cynllunio cynnar, dechreuwch ddatblygu cronfeydd data pwrpasol o'r gwahanol gynllunwyr teithiau, yn ddefnyddol gydag enwau unigolion ac enwau sefydliadau/cwmnïau – a sicrhau bod y cronfeydd data hyn yn cydymffurfio â GDPR. Mae'r data'n ategu eich cynnig grŵp a hebdo, bydd yn anodd iawn denu archebion grŵp.



Gwahodd cynllunwyr teithiau (a phartneriaid) i dreialu eich cynnyrch

Gallai hyn fod yn gyfuniad o GTOs, gweithredwyr teithiau ac ati neu ymwelwyr unigol; gwnewch yn siŵr bod eu busnes nhw yn debygol o gyfateb yn dda i'ch cynnig chi. Ai cynllunwyr teithiau yn y DU neu rai tramor sydd fwyaf o ddiddordeb i chi?

Gallwch gynnig ymweliad di-dâl neu arhosiad byr (yn eich gwesty) yn rhad ac am ddim, ond **mae'n bwysig cynnwys naill ai blaendal ad-daladwy a/neu dâl canslo am beidio â mynychu.**

Mae hyn yn rhywbeth prin ond hanfodol yn ein profiad ni gan y gall 'FAMS' neu deithiau ymgyfarwyddo ddenu'r math anghywir o bobl weithiau. (Yn anffodus mae yna leiafrif bach o unigolion – GTOs yn bennaf – sy'n cael eu denu gan y posibilrwydd o aros am ddim, mynediad di-dâl, tocynnau theatr am ddim ac yn y blaen. Mae'n broblem ledled y wlad i'r diwydiant ac yn un sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU.) Os byddwch yn penderfynu trefnu gweithgaredd o'r fath – efallai ar y cyd â'ch Cyngor lleol – mae'n well arddangos nid yn unig eich cynnyrch eich hun ond hefyd amrywiaeth o safleoedd a lleoedd eraill i ymweld â nhw yn yr ardal – cyn belled â'u bod yn ategu eich busnes ac nid mewn cystadleuaeth uniongyrchol.



Llunio taith syml ond deniadol i'r cynllunydd teithiau

Byddai hyn yn golygu bod eich busnes yn elfen allweddol ond byddai'n cynnwys elfennau eraill sy'n ychwanegu rhywbeth at y cynnig ac yn ei wneud yn fwy deniadol i brynwyr teithiau. Anaml y bydd GTOs a gweithredwyr teithiau yn trefnu taith sy'n llwyr seiliedig ar westy neu un atyniad yn unig. Mae angen i'r cynnyrch fod yn gydgysylltiedig.

Gallai hyn fod eisoes yn bodoli neu efallai y bydd eich busnes yn gweddu'n dda o fewn amserlen neu amserlen benodol ar daith a awgrymir gan sefydliad arall. Dyma sail yr hyn y byddech yn ei gyflwyno'n effeithiol i'r cynllunydd teithiau os byddwch yn gwneud 'FAM' neu ddigwyddiad lansio. Er y gall grwpiau fod yn eithaf amrywiol o ran eu gofynion, mae'n bwysig cydnabod yr hyn mae pobl am ei wneud a'i weld, yn gyffredinol does ganddyn nhw ddim diddordeb arbennig mewn safleoedd sydd wedi'u hanelu at anghenion plant bach, datblygu tîm, golffwyr, priodasau, cwsmeriaid corfforaethol ac yn y blaen. Nid yw hynny'n golygu, yn rhannau gwledig De Cymru, na fyddai cerdded, gweithgareddau awyr agored, beicio ac ati o ddiddordeb i rai grwpiau mwy arbenigol – fel grwpiau cerdded a GTOs eraill. Syniad da yw rhoi cyfle i gwsmeriaid roi cynnig ar weithgareddau sydd ychydig yn wahanol i'r teithiau coetsys mwy traddodiadol. Gallai hyn gynnwys unrhyw beth, er enghraifft abseilio, chwaraeon dŵr neu feicio, twrio am fwyd, gwneud jin neu archwilio awyr dywyll y nos. Pawb at y peth y bo!

> Gallwch weld rhai teithiau grŵp rhanbarthol yn www.southernwales.com/cy/groups/itineraries



Llunio Cynllun Gweithredu Grŵp

Nodwch y camau y byddwch yn eu cymryd gyda phartneriaid perthnasol am y 36 mis nesaf. Dylech gynnwys eich cyllideb arfaethedig a chostau'r gwahanol weithgareddau rydych chi'n teimlo'n gyfforddus a hyderus yn eu cyflawni. *Gallai'r rhain gynnwys:*

- Lansiad grŵp neu arddangosfa ar gyfer cynllunwyr teithiau.
- Datblygu rhaglenni o deithiau.
- Mynychu arddangosfeydd teithiau grŵp a thwristiaeth coetsys dethol.
- Ymgyrch hysbysebu wedi'i hostio yng nghyfringau'r fasnach deithio.
- Ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus reolaidd.
- Presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu'r fasnach deithio.
- Aelodaeth o gymdeithasau masnach a allai eich helpu i ennill busnes grŵp o ansawdd uchel e.e.

Travel World Association (TWA)
info@travelworldassociation.com

Coach Tourism Association (CTA)
admin@coachtourismassociation.co.uk

UKinbound
info@ukinbound.org

www.coachbuddy.org.uk

Ystyriwch ennill statws y Confederation of Passenger Transport's Coach Friendly, i ddangos bod gennych y cyfleusterau perthnasol.

www.coachfriendly.co.uk



Ffyrdd Eraill o Gael Archebion Grŵp

Cyfarfodydd Cyfrif Allweddol

Yn dibynnu ar eich adnoddau amser ac argaeledd personél, ewch i ymweld â swyddfeydd cwmnïau teithio i gyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw lle gallwch esbonio iddyn nhw pa mor ddeniadol yw eich cynnig grŵp – ac efallai sôn am y cymhellion sydd gennych er mwyn eu hannog i gynnwys eich cynnyrch yn eu teithiau, eu gwyliau, a'u rhaglen o wibdeithiau ac yn y blaen. Mae modd trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar-lein y dyddiau hyn hefyd.

Ymweliadau Arddangos â'ch Busnes

Fel y soniwyd mewn perthynas â lansio eich cynnig grŵp, mae'r dull hwn, ynghyd â chyfarfodydd cyfrif allweddol, yn ffordd dda iawn a hynod gost-effeithiol o berswadio prynwyr teithiau i gynnwys eich safle yn eu cynlluniau teithio priodol. *Byddai Arddangosfa neu FAM nodweddiadol yn:*

- Cynnig llety am un neu ddwy noson.
- Digwydd yn ystod cyfnod tawel.
- Canolbwyntio ar raglen deithio bwrpasol wedi'illunio'n ofalus sy'n cwmpasu sawl agwedd ar arlwy cyffredinol yr ardal.
- Cynnwys prydau bwyd a lluniaeth.
- Defnyddio gwasanaeth Tywysydd Taith Bathodyn Glas Proffesiynol.
- Ymweld yn fyr â'r safleoedd, yr atyniadau a'r gweithgareddau ategol.
- Cynnwys cyfleoedd i dynnu lluniau ar gyfer y cyfryngau masnach teithio (a fyddai'n cael eu gwahodd i fod yn bresennol).
- Ymgorffori sesiwn gweithdy wyneb yn wyneb 'cwrdd â phrynwr y grŵp' lle gall y prif chwaraewyr gyfarfod a siarad busnes yn uniongyrchol â'r prynwyr teithiau.

Cysylltwch â Thwristiaeth De Cymru neu dîm twristiaeth eich awdurdod lleol i gael gwybod pryd y bydd digwyddiad nesaf ar gyfer Arddangosfa Prynwyr Grŵp a thaith ranbarthol nesaf FAM yn cael ei chynnal a sut gallwch gymryd rhan.

Pa weithgaredd bynnag yr ydych yn ei gynllunio, mae'n hanfodol eich bod yn targedu prynwyr teithiau dilys ac o ran GTOs, eu bod wedi darparu eu hanes teithio fel rhan o ffurflen gofrestru y maen nhw'n ei llenwi wrth archebu lle ar y digwyddiad. Unwaith eto, mae tâl canslo yn hanfodol. Mae hyn yn atal pobl rhag cam-fanteisio ac yn helpu i sicrhau eich bod yn cael digwyddiad llawer mwy llwyddiannus. Mae hefyd yn ddefnyddiol ac o bosibl yn fwy llwyddiannus o ran adnoddau [yn enwedig gwestai] i fusnesau drefnu teithiau FAM gyda chwmni unigol sy'n cynnwys teithiau a drefnwyd ymlaen ac elfennau y gellir eu hailadrodd, er enghraifft, trwy wahodd un cwmni o'r fath bob mis. Mae'r un meini prawf cymhwysedd ar gyfer mynychwyr yn berthnasol ond ni fyddai'r fformiwla hon yn addas ar gyfer GTOs, ond ar gyfer cwmnïau unigol yn unig [tra bod cymysgedd o GTOs a gweithredwyr fel arfer yn mynychu digwyddiad arddangos mwy].

Darparwch gymhellion gyda'ch cynnig i gwmnïau coetsys a chwmnïau teithio gan gynnwys cwmnïau sy'n teithio i mewn. Mae tair haen o gymhellion ac o'u hadeiladu'n briodol, gallant eich helpu i ddenu'r grwpiau a'r coetsys sy'n ymweld i wario mwy:

1

Rheolwr y Daith

Pan fyddwch yn siarad â rheolwr teithiau cwmni penodol [mewn cyfarfod allweddol efallai, neu FAM neu mewn sioe fasnach] ceisiwch eu hannog i gynnwys eich cynnyrch drwy roi cynnig prawf neu ddisgownt iddyn nhw. Gall hyn eu denu i gynnwys eich cynnyrch yn eu marchnata digidol a'u deunydd print.

2

Gyrwyr y Coetsys

Os yw eich grŵp yn mynd i gyrraedd ar goets, gall y gyrrwr (ac unrhyw dywysydd) a ddefnyddir fod yn werthfawr iawn i chi. Er nad yw'r rhan fwyaf o yrwyr bysiau yn archebu llety mewn gwesty (oni bai eu bod yn berchen-yrwyr) mae ganddyn nhw'r potensial serch hynny i weithredu fel llysgenhadon ar gyfer atyniadau, siopau manwerthu ac arosfannau prydau bwyd y gallant ymweld â nhw. Os ydyn nhw wedi cael eu cymell gennych chi, yna mae'n ddigon posibl y byddant yn mynd ati i ddewis eich safle chi yn hytrach na safleoedd cystadleuwyr.

Mae'r sector manwerthu (safleoedd siopa, arosfannau prydau mawr, canolfannau garddio, gorsafedd gwasanaeth ac ati) wedi dod yn arbenigwyr wrth fanteisio ar ddisgresiwn gyrrwyr. Mae'r gweithrediadau'n gwybod bod ymweliadau grŵp yn fusnes mawr iawn ac felly mae ganddyn nhw nifer o gymhellion ar waith i sicrhau'r fasnach hon. Bydd gyrrwyr bysiau a'u tywyswyr fel arfer yn cael prydau am ddim neu luniaeth, ond ystyrir hyn yn ddisgwyliad yn hytrach na chymhelliant. Mae'r prif gymhelliad yn canolbwyntio ar y comisiwn manwerthu a delir (efallai'n flynyddol) i yrwr cofrestredig, yn seiliedig ar nifer y teithwyr a ddaeth gydag ef i'r busnes hwnnw dros flwyddyn benodol. Mae angen meddwl yn graff am wasanaeth o'r fath ac mae'n well ei osgoi os yw'r busnes dan sylw yn amau sut gellir ei gyflawni. Nid yw bwyd a phrydau bwyd byth yn cael eu cynnwys yn y cymhelliant hwn lle mae'r comisiwn yn y cwestiwn. Mae pob sefydliad yn wahanol a'r rheswm y bydd yn gweithio'n effeithiol yw am fod systemau cyfrifo priodol ar waith.

Darperir y math hwn o gymhelliant fel arfer gan fusnesau'r sector preifat ac mae'n llai cyffredin ar draws y sector cyhoeddus. Ond mae'n sicr yn werth archwilio gan fod y manteision posibl yn sylweddol. Bydd rhai safleoedd hefyd yn annog ymweliadau grŵp drwy ofyn i yrwyr bysiau sôn am gynnyrch penodol lle mae'r gyrrwr yn ennill ffigur canrannol y cytunwyd arno wrth adael yr atyniad. Gall yr eitemau hyn fod yn unrhyw beth sy'n ddymunol ac y gellir ei ailadrodd. Mae'r Mill Shops ar Ororau'r Alban ers blynyddoedd lawer wedi ennyn brwdfrydedd gyrrwyr i hyrwyddo tuniau o fisgedi Berffro a photeli o fedd. Mae modd iddyn nhw hefyd gael amrywiaeth o gynigion sy'n cwmpasu nid yn unig un safle ond nifer o atyniadau a gallai hyn fod yn sail i unrhyw 'Glwb Cymhelliant Grŵp De Cymru' yn y dyfodol neu gerdyn. Ond y ffordd orau o edrych ar hynny yw o dan y pennawd 'potensial ar gyfer y dyfodol'. Efallai hefyd ei bod yn werth ystyried y syniad o ddarparu 'Ystafell Gyrrwr' bwrpasol mewn atyniadau.



CASTELL CAERDYDD

3

Teithwyr Bysiau

Categori olaf ond nid lleiaf y tair haen o gymhellion fyddai cymhelliant i'r teithiwr grŵp neu'r teithiwr ar y goets. Os bydd busnes wedi sefydlu gwasanaeth 'cyfarfod a chyfarch', mae'n gyfle da mewn arosfannau bysiau, canolfannau manwerthu, atyniadau a chyfleusterau eraill i gynnig talebau disgownt i deithwyr er mwyn annog gwariant, efallai ar rai cynhyrchion allweddol. Mae hefyd yn werth cynnig arlwy o fwyd a lluniaeth addas fel y gall teithwyr llwglyd yn ei fwyta pan fyddan nhw ar y safle [os yw hynny'n bosibl] a dylid deall yr amserlenni tynn y mae coetsys yn eu dilyn – gan fynd ati i sicrhau bod grwpiau'n dilyn yr amserlen. Mae talebau disgownt ar gael yn barod mewn rhai trefi, e.e. Cas-gwent, felly cysylltwch ag adran dwristiaeth eich awdurdod lleol i ddysgu rhagor am gyfleoedd perthnasol yn eich ardal.

Mynychu Sioeau Masnach a Gweithdai

Cynhelir arddangosfeydd a gweithdai ledled y wlad (a rhai ar-lein), rhai wedi'u trefnu gan gylchgronau, rhai gan gymdeithasau ac eraill gan arbenigwyr y fasnach deithio. Mae'r digwyddiadau hyn yn ffordd ddefnyddiol iawn o gwrdd ag ystod eang o brynwyr teithiau.

Mae'r British Tourism and Travel Show, Birmingham yn denu gweithredwyr coetsys a theithiau.
www.tourismshow.co.uk

Mae'r Group Leisure and Travel Show, Milton Keynes yn canolbwyntio ar GTOs www.grouptravelshow.com

Mae World Travel Market, Llundain yn denu prynwyr rhyngwladol www.wtm.com

Mae'r Group Buyer Forum Workshops North and South bob blwyddyn yn denu gweithredwyr coetsys a theithiau yn ogystal â GTOs www.stevereedtours.co.uk

Mae yna ddigwyddiadau llai a mwy rhanbarthol eraill ledled y DU. Mae rhai yn dda iawn ac yn gofyn i'r rhai sy'n bresennol am hanesion eu teithiau ond mae eraill yn canolbwyntio ar niferoedd yn hytrach nag ansawdd.

Dylai busnesau bob amser anfon staff gwybodus sydd â dealltwriaeth dda o gynnig eu grŵp i'r sioeau hyn a dylent wneud gwaith dilynol ar ôl pob digwyddiad drwy gysylltu â'r prynwyr teithiau.

Bydd mynd gyda'ch sefydliad twristiaeth lleol neu genedlaethol fel partner stondin yn helpu i leihau costau. Mae mynychu sioeau yn ffordd wych o ddatblygu eich cronfeydd data o gynllunwyr teithiau.

Hysbysebu, Hysbysebion a Sylw'r Wasg

Elfen bwysig o farchnata eich grŵp fydd cael sylw yng nghyfyngau'r fasnach deithio. Bellach nid oes llawer o gyhoeddiadau'r fasnach deithio ar gael mewn print ac ar blatfformau digidol erbyn hyn. Dros y blynyddoedd diwethaf mae sawl un wedi cau gan gynnwys teitlau uchel eu proffil fel Coach Monthly a Travel GBI. Bellach, mae rhai ar ôl sy'n dal i gynnig gwerth am arian, sy'n cyrraedd prynwyr teithiau go iawn a gweithgar ac yn cynnig gwasanaeth dibynadwy. Fel rheol, os byddwch yn prynu lle hysbysebu gydag unrhyw un o'r cylchgronau sy'n cystadlu ar hyn o bryd, dylech bob amser geisio cael hysbyseb 'am ddim', a fydd yn rhoi sylw i chi (eich hanes, erthygl a chopi gyda lluniau) – yn ddelfrydol ar y dudalen dde ond mewn manau eraill, os oes rhaid. Mae cylchgronau'n daer am eich busnes ac unwaith rydych wedi prynu hysbyseb yn y cylchgrawn, byddant i gyd yn troedio llwybr i'ch drws. *Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn cwestiynau perthnasol iddyn nhw:*

- Faint o 'brynwyr teithiau' sy'n derbyn eu cylchgrawn a pha mor aml? Mae rhai yn ddeufisol. Mae rhai cyhoeddiadau yn gwneud honiadau eu bod yn dosbarthu i fwy o GTOs a gweithredwyr teithiau nag sy'n bodoli mewn gwirionedd!
- Allwch chi gael hysbyseb gyda phob hysbyseb grŵp teithio rydych chi'n eu prynu gyda nhw?
- A fydd eich hysbyseb yn cael ei chynnwys ar eu platfform digidol?

- Allan nhw gyflwyno eich stori ar eu cyfryngau cymdeithasol?
- Pa wasanaethau eraill maen nhw'n eu cynnig i'ch helpu i ennill grwpiau newydd?
- A yw eu darllenwyr i gyd yn gynllunwyr teithiau gweithredol a heb ymddeol?

Enghreifftiau o gylchgronau:

- Coach and Bus Week magazine (Gweithredwyr coetsys)
- Coach Tours UK magazine – Peterborough (Diweddariad i Weithredwyr coetsys)
- Group Leisure Magazine – Milton Keynes (GTOs)
- Group Travel World magazine – Peterborough (GTOs a Gweithredwyr coetsys)
- GTO magazine – Llundain (GTOs)
- Route One magazine (Gweithredwyr coetsys)
- Travel Weekly – Llundain (Asiantau teithio, gweithredwyr teithiau)

Mae rhai o'r cylchgronau hyn yn hen law ar gyfleu neges grŵp i'r prynwr. Mae un neu ddau yn ymwneud yn bennaf ag ochr dechnegol y diwydiant yn hytrach nag apelio at y prynwyr teithiau go iawn, felly y peth gorau yw gofyn am sampl cyn archebu lle.



Gweithio gyda Thwristiaeth De Cymru a'ch Partneriaeth Cyrchfannau leol

Mae Twristiaeth De Cymru yn ymgyrch ar y cyd sy'n cynnwys yr holl awdurdodau lleol o Sir Fynwy i Ben-y-bont ar Ogwr, a Merthyr Tudful i Gaerdydd. Mae'r Grŵp yn cael ei gydnabod fel rhan allweddol o economi twristiaeth yr ardal ac mae ffocws tîm De Cymru yn rhoi cryn ymdrech ar ddiweddarau gweithredwyr teithiau a GTOs o'r hyn sydd ar gael. Cynhelir ymweliad ymgyfarwyddo ar gyfer trefnwyr grwpiau a digwyddiad "Cwrdd â'r Prynwr" (fel arfer ym mis Mawrth), ac mae'r parth Grŵp ar y wefan yn awgrymu teithiau, ymweliadau ar thema a llawer mwy i helpu trefnwyr grwpiau. Mae De Cymru yn aelod o wahanol gyrrff masnach ac yn mynychu sioeau amrywiol.

Yr awdurdodau lleol sy'n hyrwyddo cynlluniau Twristiaeth De Cymru, ac mae llawer hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol gyda'r Sector Grŵp ar ran eu hardal. Mae pob awdurdod lleol yn gweithredu trefn o grwpiau sy'n rheoli cyrchfannau er mwyn casglu barn ac adborth y gweithredwyr twristiaeth yn eu hardal. Mae pob un ohonyn nhw yno i helpu busnesau twristiaeth, i'w cynnwys wrth ddatblygu mentrau lleol ac i gysylltu busnesau â'r cymorth neu gynlluniau datblygu sydd ar gael.

PORTHCAWL



Cysylltiadau Defnyddiol

Twristiaeth De Cymru
Visit@southernwales.com

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Tourism@bridgend.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tourism@caerphilly.gov.uk

Cyngor Dinas Caerdydd
hello@visitcardiff.com

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Visit@merthyr.gov.uk

Cyngor Sir Fynwy
Tourism@monmouthshire.gov.uk

Cyngor Dinas Casnewydd
Tourism@newport.gov.uk

Rhondda Cynon Taf County Borough Council
TourismEnquiry@rctcbc.gov.uk

Cymdeithas Twristiaeth Torfaen
TorfaenTA@gmail.com

Cyngor Bro Morgannwg
Tourism@valeofglamorgan.gov.uk

Gweithio gyda'r Sector Grŵp wrth i ni adfer ar ôl Covid-19

Gan gydnabod pwysigrwydd grwpiau i'r economi, penderfynodd Twristiaeth De Cymru ofyn i weithredwyr sut maen nhw'n gweld y 2 flynedd nesaf. (Ymchwil a wnaed Chwefror 2021 – i weld yr adroddiad llawn ewch i www.southernwales.com/cy/groups

Pwyntiau allweddol am effaith Covid-19 ar y sector:

- Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn credu y bydd llawer mwy o deithio domestig.
- Mae llawer o gwsmeriaid grŵp am roi cynnig ar gyrchfannau a phrofiadau newydd.
- Gwibdeithiau/teithiau dydd fydd y teithiau grŵp cyntaf.
- Bydd brechlynnau yn allweddol i'r sector.
- Gallai'r diwydiant coetsys grebachu gymaint â thraean yn y pen draw.
- Mae llawer o weithredwyr sydd wedi goroesi yn debygol o ganolbwyntio ar wella ansawdd eu cynnig.
- Fe gymer mwy o amser i ddatblygu cefnogaeth y grwpiau rhyngwladol.

Heriau i'r sector

- Cyrchfannau, atyniadau a gwestai ddim yn barod i dderbyn grwpiau.
- Ofn y bydd gwestai yn cynyddu eu cyfraddau grŵp yn sylweddol.
- Mae llawer o atyniadau'n osgoi'r risg o dderbyn grwpiau ac yn bwriadu gwrthod grwpiau neu'n eu gwrthod yn barod.
- Bydd maint cyfartalog grwpiau yn llawer llai oherwydd yr angen i ymbellhau ar goetsys.
- Cyfathrebu ac ymateb gwael gan rai atyniadau/gwestai ynghylch ymholiadau grŵp.

Beth y gellir ei wneud i ddenu grwpiau

- Mae angen i fusnesau weithio gyda'i gilydd i 'baratoi ar gyfer grwpiau'.
- Cyrchfannau i gyd-dynnu eu cynnig grŵp cydgysylltiedig.
- Gwestai, atyniadau, lleoliadau, gwasanaethau cymorth [canllawiau/cludiant] yn gynwysedig.
- Partneriaid allweddol i ail-lansio cynigion grŵp i fasnach deithio'r DU.
- Mae diweddariadau rheolaidd i'r sector yn allweddol i dawelu meddwl a hysbysu.

Mae llawer o weithredwyr eisoes yn archebu teithiau, o fis Gorffennaf ymlaen, er bod rhai yn dal yn ôl tan 2022 neu 2023.

Ystyrir De Cymru yn gyrchfan gyda thirwedd wych, dewis da o leoedd i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud; yn gyffredinol, gwerth da am arian.

Rhowch hyder i'ch cwsmeriaid

Wrth i ni agor i ymwelwyr, bydd rhai pobl yn nerfus felly da o beth fydd dod o hyd i ffyrdd i dawelu eu hofnau. Yng Nghymru mae angen i ni wneud Addewid. Rhoi ein gair. Yn ystod y cyfnod digynsail hwn mae angen sicrwydd hyderus ar bobl. A chyfathrebu gofalus, cyfrifol ac empathetig. www.croeso.cymru/cy

Hefyd, mae 'We're Good To Go' yn dangos eich bod yn glynu wrth ganllawiau perthnasol y Llywodraeth ac iechyd y cyhoedd, eich bod wedi cyflawni asesiad risg COVID-19 a gwirio bod gennych yr holl brosesau gofynnol ar waith. Gwnewch gais: www.visitbritain.org/were-good-go-industry-standard-all-sectorstourism-industry

Addo.



Sicrhau cyfarfodydd llwyddiannus ar-lein

Mae cyfarfodydd ar-lein wedi disodli cyfarfodydd gwerthu wyneb yn wyneb am y tro. Felly sut gallwch chi sicrhau'r siawns gorau posibl o lwyddo?

DIGWYDDIAD ARDDANGOS PRYNWYR GRŴP DE CYMRU 2020

Awgrymiadau Da

- 1 Byddwch yn ymwybodol o'ch cynulleidfa; gwnewch eich ymchwil gan sicrhau eich bod yn teilwra eich cyflwyniad i'r pethau maen nhw am eu dysgu.
- 2 Addaswch osodiadau'r cyfrifiadur/pad ysgrifennu i gynnwys enw, busnes, gwefan a manylion e-bost.
- 3 Cadwch unrhyw gyflwyniad ar-lein yn syml. Graffeg glir, negeseuon cryno, lluniau gwych, gwybodaeth gyswllt hawdd ei ddarllen.
- 4 Ymgysylltwch â'ch cynulleidfa yn hytrach na "siarad â nhw".
- 5 Gwnewch yn siŵr bod eich cefndir ar gyfer eich cyfarfod yn ddiddorol, taclus, proffesiynol, ac yn rhoi cipolwg ar eich busnes.
- 6 Gosodwch y sgrin/camera fel eich bod yn edrych yn syth ar, ac yn cael "cyswllt llygad" â'r cyfranogwyr eraill.
- 7 Gwnewch yn siŵr bod y goleuadau'n gweithio'n dda.
- 8 Os ydych yn defnyddio ffôn neu bad nodiadau, yna defnyddiwch y ffurf ar draws.
- 9 Gwiriwch fod popeth yn gweithio. Profwch eich cysylltiad rhyngwyd, gwiriwch eich bod yn gwybod sut i rannu sgrin, gwnewch yn siŵr bod eich offer TG wedi'i gysylltu â thrydan neu fod ganddo fatri llawn, ac ati. Yn ddefnyddol, rhowch brawf arni gyda chydweithiwr.
- 10 Rhowch arwydd "peidiwch â tharfu" ar y drws.
- 11 Rhowch nodiadau atgoffa lle gallwch eu gweld yn hawdd heb i'ch llygaid symud i ffwrdd o'r camera.
- 12 Cofiwch ymarfer a sicrhau eich bod yn cadw at yr amser sydd ar gael – boed hynny'n 5 munud mewn gweminar, neu awr ar gyfer cyfarfod 1 i 1.



Awgrymiadau o'r cyfnod ailagor ar ôl Covid-19 yn 2020

Mae pob un ohonom yn gwybod fod gofynion cyfreithiol wrth i ni agor ein busnesau; dyma ychydig o awgrymiadau ychwanegol o'r gwaith ymchwil ac oddi wrth fusnesau ar draws y rhanbarth a allai roi rhai syniadau i chi.

GWESTAI

- Gwnewch yn siŵr bod tîm eich derbynfa yn gwybod popeth am eich cynnig Grŵp ac yn gwybod at bwy y dylid cyfeirio galwadau.
- Ewch ati i baratoi teithiau awgrymedig o amgylch eich ardal sy'n dangos y cyfleusterau sydd ar agor – gan addasu a newid wrth i bethau agor.
- Cadwch mewn cysylltiad â'ch cysylltiadau Grŵp – rhowch wybod iddyn nhw beth sy'n digwydd.
- Gwahoddwch rai cysylltiadau Grŵp newydd i brofi'r hyn rydych chi'n ei gynnig – mae ymweliadau FAM yn dal i fod ar frig y rhestr o sut i gynhyrchu busnes newydd.

GWESTY A SBA PARKWAY

Gwesty a Sba Parkway Cynghorion Da

- Bod yn hyblyg. Pan ganslwyd pob un o'n grwpiau, aethom ati i gynnig trosglwyddiadau ac anrhydeddu'r cyfraddau y cytunwyd arny'n nhw lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Cadw'r berthynas. Mae'n bwysig iawn cadw mewn cysylltiad a chadw'r berthynas yn fyw, bron fel ffrind. Bydd hyn yn eich gwneud yn gofiadwy a byddant yn meddwl amdanoch wrth drefnu grwpiau yn y dyfodol.
- Gwerthfawrogi'r grŵp pan fyddant yn cyrraedd. Eu croesawu a dangos faint mae eu harhosiad yn ei olygu i chi.
- O dan Covid, byddwch mor hyblyg â phosibl. Er enghraifft, darparu mwy o ystafelloedd sengl oherwydd na allant rannu a chynnig bwyd preifat yn ogystal ag opsiynau bwyty. Mae hyn yn rhoi hyder i'r grŵp yn eich mesurau Covid a byddant yn gwerthfawrogi eich bod yn ystyried eu diogelwch. Mae ennill eu hymddiriedaeth yn bwysig iawn.
- Yn olaf, cyfathrebu. Yn awr, mae hyn hyd yn oed yn bwysicach nag erioed. Cysylltwch â'r Grŵp cyn iddyn nhw gyrraedd, i esbonio'r trefniadau newydd wrth iddyn nhw gyrraedd, yn ystod eu harhosiad a mesurau cadw tŷ.

Wrth i ni ailagor, mae'n bwysig i ni sylweddoli mai dyma'r tro cyntaf ers dros flwyddyn iddyn nhw gwrdd â phobl newydd, i'r rhan fwyaf o westeion, heb sôn am deithio neu ymweld â rhannau newydd o'r wlad.

ATYNIADAU

- Cynlluniwch eich llif ymwelwyr a threfniadau o ran capasiti.
- Trefnwch eich system archebu a sicrhau bod holl staff blaen y tŷ yn cael eu briffio'n llawn.
- Gwnewch yn siŵr bod Trefnwyr y Grŵp yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn yr amser i ganiatáu ar gyfer ymweliadau, gweithdrefnau archebu, y lluniaeth sydd ar gael, ac ati.


Amgueddfa Cymru Cynghorion Da

- Cyfathrebu. Rhaid i chi fod yn gwbl glir ynghylch yr hyn rydych chi'n ei gynnig a beth sydd ddim ar gael.
- Anfonwch ddogfen at y cwmni teithiau ychydig cyn yr ymweliad y gellir ei rhoi i'r gyrrwr bws, a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, e.e., bod y cafffi ar gau ond y toiledau ar agor, er mwyn lleihau unrhyw siom neu rwystredigaeth wrth gyrraedd.

BIG PIT AMGUEDDFA LOFAOL CYMRU

Profiad y Bathdy Brenhinol Cynghorion Da

- Dylech reoli pob archeb yn unigol ar y ffôn/e-bost er mwyn osgoi dryswch a chamddealltwriaeth.
- Agor am ddim ond 3 diwrnod yr wythnos i ddechrau, gan neilltuo 4ydd diwrnod ar gyfer grwpiau yn unig fel bod modd iddyn nhw fwynhau eu taith heb ofni am gaspiti lleoliadau.
- Rhewyd ein cyfraddau grŵp a'u cadw ar brisiau 2019.





www.southernwales.com/cy/groups



Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol (RTEF) ac wedi'i gefnogi drwy Lywodraeth Cymru Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig Rhaglen 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru, y Gronfa i wella profiad yr ymwelydd a chreu cyrchfannau cryfach drwy gydweithio.

Ymchwil a chopi gan Steve Reed Tourism Ltd. Dylunio gan Height Studio Images atgynhyrchwyd drwy garedigrwydd Steve Reed Tourism Ltd, Twristiaeth De Cymru, Hawlfraint y Goron, CBS Blaenau Gwent, Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon (Phil Coombe), CBS Merthyr Tudful, CBS Rhondda Cynon Taf a Gwesty a Sba Parkway. Cyfieithu gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr.